

# Mewnforio perlysiâu a sbeisys

Canllawiau ar fewnforio perlysiâu a sbeisys o drydydd gwledydd.

Mae'n rhaid i berlysiâu a sbeisys a gaiff eu mewnforio o du allan i Brydain Fawr fodloni'r un safonau hylendid a'r un gweithdrefnau diogelwch â bwyd a gynhyrchir ym Mhrydain Fawr.

Fel arfer, nid oes angen tystysgrif iechyd arnoch chi i fewnforio perlysiâu a sbeisys.

## Safonau ar gyfer sbeisys

Nid yw cyfraith y Deyrnas Unedig (DU) yn diffinio safonau ar gyfer sbeisys. Fodd bynnag, gall cyngor gan yr Asiantaeth Diogelu Iechyd ar feini prawf microbiolegol 'cynnyrch terfynol' fod o gymorth. Mae'r Asiantaeth Diogelu Iechyd yn gorff annibynnol sy'n diogelu iechyd a lles pawb yng Nghymru ac yn Lloegr.

Mae gan yr [Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion](#) (APHA) ragor o wybodaeth am y meini prawf.

Mae gwybodaeth am [safonau y DU ar gyfer sbeisys](#) hefyd ar gael ar wefan y Seasoning and Spice Association.

## Lliwiau, cyflasynnau (*flavourings*) a melysyddion bwyd

Gall rhai perlysiâu a sbeisys gynnwys lliwiau, cyflasynnau neu felysyddion. Er ei bod yn bosibl bod yr awdurdod bwyd wedi cymeradwyo'r rhain yn y wlad tarddiad, efallai na fydd rhai ohonynt wedi'u cymeradwyo ym Mhrydain Fawr.

I gael gwybodaeth am gyflasynnau, melysyddion, lliwiau a chyffeithyddion (preservatives) bwyd, cysylltwch â'r Tîm Ychwanegion Bwyd drwy anfon e-bost at [FoodAdditives@food.gov.uk](mailto:FoodAdditives@food.gov.uk)

## Labelu

Mae gwybodaeth gyffredinol am [labelu bwyd](#) ar gael ar wefan GOV.UK.

I gael cyngor ar [labelu cynhyrchion penodol](#), cysylltwch ag Adran Safonau Masnach neu Adran Iechyd yr Amgylchedd eich awdurdod lleol.

## Cynhyrchion organig

Os ydych chi'n mewnforio cynhyrchion organig (cynhyrchion amaethyddol byw neu heb eu prosesu, cynhyrchion amaethyddol wedi'u prosesu i'w defnyddio fel bwyd neu fwyd anifeiliaid, deunydd ysgogi llystyfiant a hadau i'w tyfu), o drydydd gwledydd, cysylltwch â'r [Tîm Mewnforion Organig](#) trwy wefan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra).

I gael gwybodaeth am reoleiddio cynhyrchion organig a safonau organig, (gan gynnwys labelu) o fewn Prydain Fawr, cysylltwch â'r Tîm Strategaeth Organig trwy wefan Defra.

## Deunydd pecynnu

Mae deunyddiau ac eitemau a ddaw i gysylltiad â bwyd, gan gynnwys y rhai a ddefnyddir ar gyfer pecynnu bwyd, yn cael eu rheoli gan gyfraith y DU a ddargedwir (retained UK law) ym Mhrydain Fawr.

Mae'r ddeddfwriaeth yn arbennig o drylwyr wrth reoli deunyddiau ac eitemau plastig y bwriedir eu defnyddio ar gyfer bwyd.

I gael gwybodaeth am ddiogelwch deunydd pecynnu, cysylltwch â'r Tîm Deunyddiau a ddaw i Gysylltiad â [Bwyd.FoodContactMaterial@food.gov.uk](mailto:Bwyd.FoodContactMaterial@food.gov.uk).

## Hylendid bwyd

Os oes gennych chi ymholiadau cyffredinol ar hylendid bwyd, cysylltwch â'r Tîm Polisi Hylendid Bwyd [FoodHygiene.policy@food.gov.uk](mailto:FoodHygiene.policy@food.gov.uk)

## Plaladdwyr

I gael gwybodaeth am lefelau diogelwch plaladdwyr, cysylltwch â Chyfarwyddiaeth Rheoleiddio Cemegau yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) trwy eu gwefan.

## Halogion

Mae [Rheoliadau Halogion mewn Bwyd \(Cymru\) 2013](#) yn darparu ar gyfer deddfu a gorfodi cyfraith a ddargedwir sy'n gosod terfynau rheoleiddio ar gyfer halogion mewn bwyd, fel nitrad, mycotocsinau, metelau, 3-MCPD, deuocsinau a hydrocarbonau aromatig polysyclig neu PAHs.

## Cyfyngiadau mewnforio

Mae yna rai cyfyngiadau/gofynion mewnforio eraill a all fod yn berthnasol wrth fewnforio perlysiâu a sbeisys, ac mae angen i fewnforwyr fod yn ymwybodol ohonynt.

Cynhyrchion "risg uwch"

Dim ond drwy borthladdoedd a meysydd awyr penodol sydd wedi'u cymeradwyo fel [mannau rheoli ar y ffin](#) y gellir mewnforio rhai bwydydd a bwydydd anifeiliaid penodol nad ydynt yn dod o anifeiliaid a gaiff eu hystyried i beri 'risg uwch' i Brydain Fawr. Bydd y rhain yn destun rheolaethau swyddogol. Mae cynnyrch 'risg uwch' yn gynnwys bwyd neu fwyd anifeiliaid y mae'n hysbys ei fod yn peryglu iechyd y cyhoedd, neu fod hynny'n dod i'r amlwg.

Dyma ragor o wybodaeth am [fewnforio bwyd risg uchel](#).

Mae rhestr lawn o fwydydd (nad ydynt yn dod o anifeiliaid) gyda chyfyngiadau cyfredol yr UE ar gael.

## Kava-kava

Ers 9 Ionawr 2003, mae'r perlysiuyn 'kava-kava', ac unrhyw fwyd sy'n ei gynnwys, wedi'i wahardd rhag dod i mewn i'r DU. Mae hyn oherwydd pryderon ynghylch ei effaith wenwynig ar yr iau/afu.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â [chanolfan gwasanaeth cwsmeriaid](#) yr Adran Iechyd.

## **Mewnforio bwyd a bwyd anifeiliaid o Japan**

Mae mewnforio unrhyw fwyd a bwyd anifeiliaid sy'n deillio o Japan neu a ddaeth o Japan i Brydain Fawr yn destun amodau arbennig. Mae hyn yn dilyn y ddamwain yng ngorsaf b?er niwclear Fukushima Daiichi yn Japan yn 2011. Bydd hyn yn golygu mai drwy borthladdoedd a meysydd awyr penodol yn unig y gellir mewnforio'r cynhyrchion hyni Brydain Fawr, lle byddant yn destun rheolaethau swyddogol.

## **Cysylltiadau tîm**

### **Tîm ychwanegion bwyd**

[foodadditives@food.gov.uk](mailto:foodadditives@food.gov.uk)

### **Tîm deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd**

[foodcontactmaterial@food.gov.uk](mailto:foodcontactmaterial@food.gov.uk)

### **Polisi hylendid bwyd**

[foodhygiene.policy@food.gov.uk](mailto:foodhygiene.policy@food.gov.uk)